Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Ysbyty Brenhinol Gwent, Ward D2 y Dwyrain a'r Gorllewin: Wroleg / Casnewydd / Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## Dyddiad yr arolygiad: 3 a 4 Mai 2023

## Dyddiad cyhoeddi: 4 Awst 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83504-459-9
© Hawlfraint y Goron 2023

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael ar Ward D2 y Dwyrain a Ward D2 y Gorllewin.

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd ac roedd y cleifion i'w gweld yn cael gofal da. Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion a'u gofalwyr, ond roedd diffyg gwybodaeth hybu iechyd ar gael.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod trefniadau da ar waith i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso a niwed i feinweoedd ac i'w hatal rhag cwympo.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i reoli meddyginiaethau ac i atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau i sicrhau gofynion noeth o dan y penelin y staff.

Roedd strwythur rheoli addas ar waith a chafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u hamlygu.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Wardiau D2 y Dwyrain a'r Gorllewin ar 3 a 4 Mai 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac adolygydd profiad y claf.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael.

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd, a'u bod wedi gwneud ymdrech ar y cyfan i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas wrth ddarparu gofal.

Roedd y cleifion i'w gweld yn cael gofal da a gwelsom fod y staff yn ymateb yn brydlon i geisiadau'r cleifion am gymorth.

Er i ni weld gwybodaeth yn cael ei harddangos ar yr hysbysfyrddau, nid oedd hyn yn cynnwys gwybodaeth hybu iechyd nac yn cyfeirio at wasanaethau penodol.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Darparu gwybodaeth hybu iechyd ar y ddwy ward
- Darparu arwyddion i helpu cleifion sydd â diffyg ar y synhwyrau
- Cyflwyno cynllun i helpu i ofalu am gleifion gyda nam gwybyddol.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd
- Gwelsom fod poen y cleifion yn cael ei rheoli'n dda
- Gwelsom y staff yn annog y cleifion i symud.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

*“Mae'r staff wedi bod yn wych, hyd yn oed y staff a oedd yn mynd â fi i'r theatr.”*

*“Staff sylwgar a dymunol iawn”*

*“Mae'r holl staff wedi bod yn ardderchog, o'r meddyg ymgynghorol i'r glanhawr.”*

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod wardiau'r ysbyty'n darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom fod trefniadau da ar waith i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i atal cleifion rhag cwympo. Hefyd, gwelsom fod trefniadau da ar waith i ddiwallu anghenion maeth a hydradu'r cleifion.

Gwelsom fod y wardiau yn hygyrch i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Roedd mynediad gwastad i'r ysbyty gyda lifftiau i gyrraedd pob ward a oedd wedi'u lleoli dros sawl lefel.

Canfuwyd bod y ward yn lân ac yn daclus iawn. Roedd cyfarpar yn cael ei lanhau rhwng defnydd gan y cleifion ac yn cael ei osod mewn storfa ddynodedig. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol a gel dwylo ar gael drwy'r ward a gwelwyd y staff yn ei ddefnyddio'n briodol.

Roedd canlyniad yr archwiliad ar gyfer noeth o dan y penelin ar ward D2 y Dwyrain wedi bod islaw 85% ers pedwar mis. Gwnaethom argymell fod yr holl staff yn cadw at y rheoliadau a'u bod yn noeth o dan y penelin mewn ardaloedd clinigol.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi noeth o dan y penelin.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y drws i'r ystafell meddyginiaethau ar gau ac yn ddiogel bob amser.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Gwelsom fod trefniadau da ar waith i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwympo
- Gwelsom brosesau cadw cofnodion cynhwysfawr
- Gwelsom fod iPads yn cael eu defnyddio i gofnodi a gwerthuso cofnodion o arwyddion hanfodol i fywyd.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Nodwyd bod strwythur rheoli addas ar waith a chafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u hamlygu.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff system archwilio i fonitro ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir ar y wardiau. Gwelsom fod y trefniadau ansawdd a diogelwch ar y wardiau yn briodol.

Roedd gan y bwrdd iechyd raglen hyfforddiant gorfodol gynhwysfawr ac roedd cydymffurfiaeth y staff yn dda ar y ddwy ward.

Gwelsom fod y mwyafrif o'r staff oedd ar gael wedi cael arfarniad diweddar.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar symud a chodi a chario yn ddiogel.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Gwelsom fod strwythur rheoli da ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir
- Roedd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant yn dda ar gyfer llawer o bynciau
- Gwelsom fod y rhaglen Gofal Diogel yn adnodd dibynadwy i sicrhau bod lefelau staffio diogel ar y ward.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion y rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

